



CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF

CYLCH *lythyr*

GWANWYN 2020



## Digwyddiadau Cofnodion Fferm WLBP

Yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr fe gynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ynghylch rhaglen Cofnodion Fferm WLBP ar y cyd gyda Lantra a Cyswllt Ffermio.

Cynhaliwyd 18 o gyfarfodydd ar draws Cymru. Roedd y digwyddiadau yma yn cynnwys cyflwyniad am waith WLBP a chynllun FAWL yn ogystal â arddangosiad trylwyr o raglen Cofnodion Fferm.

Cafwyd cynulleidfaoedd da yn y cyfarfodydd yma gyda rhwng 20–60 yn mynychu. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn bositif iawn gyda nifer helaeth o aelodau yn gweld budd mawr i ddefnyddio'r rhaglen o fewn eu busnesau.

Roedd y cyfarfodydd yma hefyd yn gyfle i'r rhai oedd yn defnyddio'r rhaglen yn barod i roi adborth ar y gwasanaeth. Fe fyddwn yn defnyddio'r adborth hwn i wella'r rhaglen fel ei fod yn gwireddu anghenion yr

aelodau, yn ogystal a chyd fynd gyda unrhyw ddiweddiariad mewn rheolau trawscydymffurfio.

Roedd yr aelodau wnaeth fynychu'r cyfarfodydd wedi'w plesio gyda faint y mae'r rhaglen yn gallu ei gynnig wrth gadw cofnodion trawscydymffurfio, cofnodion meddyginiaethau, cynllun iechyd a Llyfr Rheoli FAWL.

Cafwyd adborth cadarnhaol am yr ap ffôn clyfar sydd yn cyd fynd gyda'r rhaglen, gyda nifer yn nodi pa mor hawdd yr oedd i'w ddefnyddio tra allan ar y ffarm.

Os ydych am ragor o wybodaeth am y rhaglen Cofnodion Fferm, ewch ar ein gwefan: <https://farmrecords.wlbp.co.uk> neu cysylltwch gyda'r swyddfa ar 01970636688 i siarad gyda cydlynwyr Cofnodion Fferm: Llŷr Lewis 07741 549270 / LlyrL@wlbp.co.uk neu Siôn Ifans: [sionifans@wlbp.co.uk](mailto:sionifans@wlbp.co.uk)



## Cyfnod Pontio Gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r sector ffermio organig

Ar 31 Ionawr fe adawodd y Deyrnas Unedig (DU) yr Undeb Ewropeaidd (UE) gan symud ymlaen i'r cyfnod pontio fydd yn parhau tan ddiwedd 2020. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo hwn, bydd busnesau'n gallu masnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd ar yr un telerau ag y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw newidiad yn cymryd lle ar hyn o bryd. Bydd y sector organig yn parhau i ddilyn rheolau'r UE hyd nes y daw'r cyfnod pontio i ben. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys rheolau mewnforio ac allforio yn ogystal â gofynion labelu.

Bydd y rheolau ar gyfer cynhyrchu cynnyrch organig yn aros yr un fath am nawr. Mae'r DU yn parhau i weithredu o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhifau 889/2008 a 1235/2008 sydd hefyd yn berthnasol yn yr UE.

I dderbyn mwy o wybodaeth ar gyfer paratoi eich busnes ffermio ar gyfer 1 Ionawr 2021 ewch i: <https://www.gov.uk/guidance/the-farming-sector-and-preparing-for-eu-exit>

# RHANDDIRYMIAD HADAU / SEED DEROGATION

Ar gyfer 2020 dim ond y gyfran (%) o hadau organig o fewn cymysgeddau hadau ar gyfer glaswellt a chnydau porthi sydd wedi newid. Y rheswm am hyn yw'r prinder hadau sydd ar gael oherwydd sychder 2018.

Rhanddirymiad (derogation) cyn prynu	Rhanddirymiad cyn arolygiad	Dim angen rhanddirymiad
Cymysgeddau gyda llai na 50% o hadau glaswellt organig a hadau cnwd porthiant.	Cymysgeddau hadau gyda rhwng 50%–99% o hadau organig glaswellt a hadau cnwd porthiant.	100% hadau organig
Cymysgeddau gyda llai na 70% o hadau silwair tir â'r a chymysgeddau cnydau cyfan (wholecrop mixes)	Cymysgeddau hadau rhwng 70%–99% o hadau silwair tir â'r a chymysgeddau hadau cnwd porthiant	
100% hadau nad ydyn nhw'n hadau organig		

Bydd rhaid i gymysgeddau hadau, fydd yn cael eu hau yn ystod 2021, gynnwys lleiafswm o 70% o hadau organig, hyd yn oed os ydy'r hadau wedi'u prynu yn ystod 2020.

## Rheoliadau ar Storio Olew yng Nghymru

Bydd rheoliadau i ddiogelu'r amgylchedd ac eiddo o ganlyniad i ollyngiadau o gynnwysyddion storio olew yn cael eu hymestyn i bob tanc o 15 Mawrth 2020.

Mae'r rheoliadau'n gosod safonau ar gyfer cyfleusterau storio olew sy'n anelu at atal olew rhag dianc a'r risg o lygredd dŵr a difrod i dir ac eiddo o ganlyniad. Y prif ofyniad yw cynnwys ail amddiffynfa i atal unrhyw ollyngiadau o danc storio olew rhag dianc i'r amgylchedd o'i gwmpas. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol ar gyfer pob tanc storio olew newydd oedd yn cael ei osod ar ôl 15 Mawrth 2016. Nawr, bydd angen i'r tanc storio olew presennol sy'n gwasanaethu eiddo annomestig gydymffurfio o 15 Mawrth 2020. Mae tanciau storio domestig a oedd yn eu lle cyn 15 Mawrth 2016 yn parhau i fod wedi'u heithrio nes y bydd tanc newydd yn cael ei osod.

Mae tanciau storio olew tanwydd amaethyddol, a oedd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) 2010, bellach wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau newydd. Mae'n annhebygol y bydd angen gwneud unrhyw newidiadau ar gyfer systemau storio a oedd yn cydymffurfio â safonau SSAFO. Bellach mae Safon Gyffredin yn cael ei chymhwyso i fod yn berthnasol i bob tanc storio olew yng Nghymru. **Fodd bynnag, mae'r rheoliadau hyn yn dileu'r eithriad oedd yn bodoli ar gyfer hen danciau storio olew tanwydd amaethyddol a oedd yn bodoli cyn 1991.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar y Rheoliadau, sydd i'w gweld yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/oil-storageregulations.pdf>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y rheolydd, hefyd wedi cyhoeddi dogfen sy'n ateb Cwestiynau Sy'n Cael eu Gofyn yn Aml. Mae'r rhain i'w gweld yn: <https://naturalresources.wales/media/681287/osr-wales-faq-rt-pc-final-draft-v2-01022017.pdf>

### WELSH LAMB & BEEF PRODUCERS LTD CRYNODEB CYFRIFON ARIANNOL am y flwyddyn a ddaeth i ben 31/03/2019

#### CYFRIF INCWM A GWARIANT

	2019 £000	2019 £000	2018 £000	2018 £000
Trosiant		1897		1258
Cost Gwerthiannau		1782		1144
Elw Gros		114		114
Costau gweinyddol		-127		-121
Llog a dderbyniwyd		2		0
Trethiant		-3		1
Colled ar gyfer y flwyddyn		-14		-6

#### MANTOLEN

ASEDAU SEFYDLOG		90		97
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	960		612	
Banc	1717		1705	
	2677		2317	
Credydwyr	2064		1694	
Asedau Net Cyfredol		613		623
Treth Ohiriedig		-3		-6
ASEDAU NET		700		714

#### CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN

Cyfalaf Cyfranddaliadau		2		2
Arian wrth Gefn		697		712
		699		714

### Cynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru Cyf RHYBUDD O GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol yr aelodau yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Marine, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth SY23 2DA ar ddydd Iau 27ain Chwefror 2020 am 2.30yp

Yn gywir, WG Jones, Ysgrifennydd

#### AGENDA

- 1.0 Derbyn cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol
- 2.0 Derbyn adroddiad gan y Cadeirydd, Mr David Bebb Evans
- 3.0 Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2019\*
- 4.0 Ethol cyfarwyddwyr – Mae Ceiriog Jones a Hedd Pugh yn ymdeol yn eu tro ac yn gymwys i'w hail-ethol\*\*
- 5.0 Cymeradwyo Whittingham Riddell fel Cyfrifwyr Adrodd

\* Mae copïau o'r cyfrifon blynyddol ar gael ar wefan y gymdeithas ([www.wlbp.co.uk](http://www.wlbp.co.uk)) neu os ydych angen copi papur yna cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 636688

\*\* Os ydych yn dymuno gwneud enwebiad ar gyfer y bwrdd yna a fyddoch mor garedig ag anfon enw a chyfeiriad yr aelod at: WLBP Ltd, PO Box 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth erbyn 25ain Chwefror 2020 wedi ei arwyddo gan 6 aelod arall o Gynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru.